

“Yn ôl ffrwyth eu gweithredoedd”

Cariad



Cymun Bendigaid ar Gân


Dydd Gŵyl Deiniol Sant

11 Medi 2022 am 9.15am




Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnwll o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

Yn Cymun hwn...

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â
Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i
Waed ef gyda ni.

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn
yn paratoi ein hunain i gwrdd â
Christ trwy gyffesu ein pechodau
— y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw
yn ein bywydau — ac yn derbyn
gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant
Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwranddo ar
ddarlenniadau o'r Beibl, gan
ganfod yno arweiniad, her,
cysur a newydd da gan Dduw.
Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd
yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i
Dduw ein gweddi dros bawb mewn
angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw,
byddwn yn cymryd bara a gwin,
byddwn yn gofyn am fendith
gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r
bara, ac — fel aelodau o Gorff toredig,
trwsiedig Crist — byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth
inni dderbyn bendith Duw, yn
gynhالياeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y
gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae
croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os
hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf,
neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag
aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i
bawb.

Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Plant a theuluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â themau'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

Buchedd Bangor yw ein cylchgrawn newydd, gan gynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.


Buchedd Bangor



O'r Ddarllenfa From the Lectern



Trefn y gwasanaeth



Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch ac wrth i'r Côr oymdeithio



Anthem

Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri;
ei gwrol ryfelwyr, gwladgarwyr tra mad,
dros ryddid collasant eu gwaed.

**Gwlad, gwlad,
pleidiol wyf i'm gwlad.
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau,
O bydded i'r hen iaith barhau.**



Cynnull

Emyn



Fyth, fyth rhyfedda' i'r cariad
yn nhragwyddoldeb pell,
a drefnodd yn yr arfaeth
im etifeddiaeth well
na'r ddaear a'i thrysorau,
a'i brau bleserau 'nghyd;
fy nghyfoeth mawr na dderfydd
yw Iesu, Prynwr byd.

Ar noswaith oer fe chwysai
y gwaed yn ddafnau i lawr,
ac ef mewn ymdrech meddwl
yn talu'n dyled fawr;
fe yfai'r cwpan chwerw
wrth farw ar y pren;
palmantodd ffordd i'r bywyd
o'r ddaear hyd y nen.

Tragwyddol glod i'r cyfiawn
fu farw dros fy mai;
fe atgyfododd eilwaith
o'r bedd i'm cyfiawnhau;

**ar orsedd ei drugaredd
mae'n dadlau yn y ne'
ei fywyd a'i farwolaeth
anfeidrol yn fy lle.**

Geiriau

Morgan Rhys (1716-1779)

Cerddoriaeth | "Wolvercote"

William Harold Ferguson (1874-1950)

Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl

Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

"Yr wyf fi, y Sanctaidd, yn chwilio'r galon ac yn profi cymhellion,
i roi i bawb yn ôl eu ffyrdd ac yn ôl ffrwyth eu gweithredoedd."

Cyffes

Gan gynnwll i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

gan ymddiried yn naioni ein Tad trugarog,

wedi'n cynnal gan addfwynder Iesu, ein brawd,

ac wrth weld ein bywydau o'r newydd yn llewyrch
yr Ysbryd bywiol.

Cyd-weddiwn.

**Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni.
Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthych,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.
Amen.

Parhawn ar ein traed

Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.

Cyfieithiad

Arglwydd trugarha. Crist trugarha. Arglwydd trugarha.

Cerddoriaeth

Offeren Deiniol, Alan Rees (1941-2005)

Parhawn ar ein traed

Gweddi Gasgl


Gweddiwn.

Hollalluog Dduw, sydd trwy weinidogaeth dy was Deiniol wedi dwyn goleuni'r Efengyl i'n gwlad: caniatâ i ni, gan ddilyn esiampl ei ffyddlondeb a'i sêl, ddyfod i oleuni'r bywyd tragwyddol; trwy Iesu Grist ein Gwardwr.
Amen.

Eisteddwn

Gair

Salmyddiaeth



Haleliwia.

Y Pob perchen chwŷth molianned Ner.

R **Pob perchen chwŷth molianned Ner.**

Molwn di, O Dduw, yn dy gysegr, molwn di, O Dduw, yn dy ffurfafen gadarn.

Molwn di, O Dduw, am dy weithredoedd nerthol, molwn di, O Dduw, am dy holl fawredd.

R **Pob perchen chwŷth molianned Ner.**

Molwn di, O Dduw, â sain utgorn, molwn di, O Dduw, â nabl a thelyn.

Molwn di, O Dduw, â thympan a dawns, molwn di, O Dduw, â llinynnau a phibau.

R **Pob perchen chwŷth molianned Ner.**

Molwn di, O Dduw, â sŵn symbolau, molwn di, O Dduw, â symbolau uchel.

Bydded i bopeth byw foliannu'r Sanctaidd Un.

R **Pob perchen chwŷth molianned Ner.**

Salm 150
Cerddoriaeth
Sam Jones

Darlleniad

Darlleniad o Lyfr y Proffwyd Jeremeia.

Fel hyn y dywed y Sanctaidd Un: Melltigidig fo'r sawl sydd â'i hyder mewn meidrolyn, ac yn gwneud cnawd yn fraich iddo, ac yn gwyro oddi wrth y Sanctaidd Un. Bydd fel prysgwydd yn y diffeithwch; ni fydd yn gweld daioni pan ddaw. Fe gyfanhedda fannau moelion yr anialwch, mewn tir hallt heb neb yn trigo ynddo. Bendigidig yw'r sawl sy'n hyderu yn y Bywiol Un, a'r Bythol Un yn hyder iddo. Y mae fel pren a blannwyd ar lan dyfroedd, yn gwthio'i wreiddiau i'r afon, heb ofni gwres pan ddaw, a'i ddail yn ir; ar dymor sych ni phrydera, ac ni phaid â ffrwytho. Y mae'r galon yn fwy ei thwyll na dim, a thu hwnt i iachâd; pwy sy'n ei deall hi? Ond yr wyf fi, y Sanctaidd Un, yn chwilio'r galon ac yn profi cymhellion, i roi i bawb yn ôl eu ffyrdd ac yn ôl ffrwyth eu gweithredoedd.

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Jeremeia 17:5-10

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys

Efengyl



♫ Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. ♪ **Haleliwia. Haleliwia.**

Haleliwia. ♫ Bydd llawer o'r rhai blaenaf yn olaf, ac o'r rhai olaf yn flaenaf. ♪ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Mathew.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, "Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyched mai anodd fydd hi i rywun cyfoethog fynd i mewn i deyrnas nefoedd. 'Rwy'n dweud wrthyched eto, y mae'n haws i gamel fynd trwy grau nodwydd nag i rywun cyfoethog fynd i mewn i deyrnas Dduw." Pan glywodd y disgyblion hyn, synasant yn fawr ac meddent, "Pwy felly all gael

ei achub?” Edrychodd Iesu arnynt a dywedodd wrthynt, “Gyda dynion y mae hyn yn amhosibl, ond gyda Duw y mae pob peth yn bosibl.” Yna atebodd Pedr ef, “Dyma ni wedi gadael pob peth a’th ganlyn di. Beth felly a gawn ni?” Dywedodd Iesu wrthynt, “Yn wir, ‘rwy’n dweud wrthyich, pan enir yr oes newydd, pan fydd Mab y Dyn yn eistedd ar ei orsedd ogoneddus, byddwch chiwi a’m canlynodd i hefyd yn eistedd ar ddeuddeg gorsedd gan farnu deuddeg llwyth Israel. A phob un a adawodd dai neu frodyr neu chwirydd neu dad neu fam neu blant neu diroedd er mwyn fy enw i, caiff dderbyn ganwaith cymaint ac etifeddu bywyd tragwyddol. Ond bydd llawer o’r rhai blaenaf yn olaf, ac o’r rhai olaf yn flaenaf.”

Dyma Efengyl ein Gwardedwr.

Moliant i ti, O Grist.

Mathew 19:23-30

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

Pregeth yn y gyfres “Fel coeden a blannwyd ar lan dyfroedd”
“Yn ôl ffrwyth eu gweithredoedd” | Cariad

Y Canon dros Fywyd Cynulleidfaol

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy’n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddiwn ar Dduw.

Eisteddwn neu benliniwn

Defnyddiwn yr ymatebion

Ŵ O Dduw, yn dy drugaredd,

℞ **Gwrando ein gweddi.**

Ŵ Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.

℞ **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**

Ŵ ✕ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.

℞ **A chyfodi mewn gogoniant.**

Ŵ Dad trugarog,

℞ **Derbyn y gweddiâu hyn**

er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.

Amen.

Gelwir Gostegion Priodas

Codwn ar ein traed, a gwneir Casgliad yn ystod yr emyn

Cymun

Eryn



Duw sydd gariad, caned daear,
Duw sydd gariad, moled nef,
boed i'r holl greadigaeth eilio
cân o fawl i'w enw ef;
hwn osododd seiliau'r ddaear
ac a daenodd dir a môr,
anadl pob creadur ydyw,
gariad bythol, Duw ein lôr.

Duw sydd gariad, a chofleidia
wledydd byd yn dirion Dad;
cynnal wna rhwng breichiau diogel
blant pob hil a llwyth a gwlad:
a phan dyr calonnau dynion
o dan feichiau blinder byw
dônt o hyd i'r unfath boenau
yn nyfnderoedd calon Duw.

Duw sydd gariad, er bod dynion
a'u calonnau'n gwblw ddall;
gwared Duw drwy dragwyddoldeb
blant y ffydd rhag pyrth y fall:

**arnom ni chaiff angau'r trechaf
na chrafangau pechod fyth:
cariad ydyw Duw, a'i gariad
fo'n teyrnasu yn ddi-lyth.**

Geiriau

Timothy Rees (1874-1939)

Cyfieithiad

Hywel M. Griffiths

Cerddoriaeth | "Lux Eoi"

Arthur Sullivan (1842-1900)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.

Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.

Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.

Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Dathlwn yr ŵyl hon i ddiolch am dy was Deiniol. Ysbrydolaist ni trwy ei ofal a'i gariad, cyfarwyddaist ni trwy ei ddysgeidiaeth a chalonogaist ni trwy ei esiampl fel un a ofalodd am dy braidd.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.

✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

Cerddoriaeth
Offeren Deiniol, Alan Rees (1941-2005)

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwyteu; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Cyhoeddwn ddirgeledd y ffydd.

Bu farw Crist.

Atgyfododd Crist.

Daw Crist mewn gogoniant.

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deunw â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewydd ni a phawb y gweddiwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynndo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. **Amen.**

Tangnefedd

Fel'n cysegrir â'th Ysbryd yn un Corff, fel na fyddwn wasgaredig mwyach, ond yn deulu ar dy lun, a'r agosatwydd yn rhodd dy dangnefedd.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

Torri

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

Cerddoriaeth

Offeren Deiniol, Alan Rees (1941-2005)

Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.

Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn, ond dywed y gair a chaf fy iacháu.

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

Motét

Llonna, O Arglwydd, enaid dy was; cans atat ti y dyrchafaf fy enaid.

Geiriau

Salm 86:4

Cerddoriaeth

William Crotch (1775-1847)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn

Emyn



Gyda'r saint anturiais nesu
dan fy maich at allor Duw:
bwrdd i borthi'r tlawd, newynog,
bwrdd i nerthu'r egwan yw;
cefais yno megis gyffwrdd,
corff drylliedig lesu glân,
yn y fan fe doddai 'nghalon
fel y cwyr o flaen y tân.

**O fy Iesu bendigedig,
golwg iawn ar waed dy groes
sydd yn toddi'r mawr galedwch
sy'n diffrwytho dyddiau f'oes;
gad, O gad im, dirion Arglwydd,
fyw a marw yn dy hedd;
bydd di oll yn oll i'm henaidd
yma a thu draw i'r bedd.**

Geiriau

Nicander (Morris Williams, 1809-1874)

Cerddoriaeth | "Abbot's Leigh"

Cyril Vincent Taylor (1907-1991)

Parhawn ar ein traed

Gweddî Ôl-Gymun

Gweddîwn.

Aninnau'n anedig o'r Ysbryd, yn greadigaeth ar dy ddelw
di, ac yn camu feunydd o ogoniant i ogoniant, trig gyda
ni, Gorff Crist, i'n meithrin, ein mendio, a'n gwneuthur yn
gyfan; trwy dy Enw Sanctaidd di.

Amen.

Ymadael

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rodded Dduw i'r bywiol ras, i'r ymadawedig orffwys, i'r
Eglwys, y Brenin, y Gymanwlad a holl bobl, undod a
hedd, ac i ninau a holl weision Duw, fywyd tragywyddol; a
bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn
eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Awn ymaith mewn tangnefedd.

Yn Enw Crist. Amen.

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

Offrymddarn ar yr organ

Hysbys



Coffáu Ei Diweddar Fawrhydi'r Frenhines Elisabeth II

Mae gan y Gadeirlan rôl bwysig yn ystod y cyfnod hwn o Alaru Cenedlaethol wrth gefnogi ein cymunedau, ein dinas a'n siroedd i goffáu Ei Diweddar Fawrhydi ac i nodi'r teyrnasiad newydd,

Mae drysau'r Gadeirlan wedi bod ar agor yn hirach nag arfer y dyddiau diwethaf hyn, ac mae llawer wedi dod i arwyddo'r Llyfrau Coffa ac i oleuo canhwyllau. Rydym yn ddiolchgar i bawb y bu eu hymdrechion yn fodd i ddathlu Cymun Dros y Meirw dros Ei Diweddar Fawrhydi ar nos Wener, lle y canodd y Côr osodiad Fauré o'r *Requiem*.

Cynhelir Gwasanaeth Coffa swyddogol y Sir a'r Esgobaeth, lle bydd Ei Fawrhydi'r Brenin yn cael ei gynrychioli gan Arglwydd Raglaw Ei Fawrhydi dros Wynedd, yma ddydd Sul nesaf 18 Medi, am 4.30pm. I fod yn sicr o sedd, dilynwch y cod QR neu'r dolenni o wefannau cyfryngau cymdeithasol y Gadeirlan i gofrestru.

Y Sul hwn, bydd yr Archesgob yn arwain gweddïau yn y Choral Holy Eucharist, cyn gadael i gymryd rhan yn Seremoni'r Cyhoeddi yng Nghastell Caernarfon y prynhawn yma; a bydd camerâu ITV yn bresennol i recordio rhannau o'r gwasanaeth. Bydd yr Esgob yn arwain gweddïau yn y Gosber heno.

Eglwys y Groes

Rydym yn falch iawn bod gwasanaeth canol wythnos yn ailddechrau yn Eglwys y Groes am 2 o'r gloch bob dydd lau.

Cyfarfod Cynulleidfaol

Cynhelir Cyfarfodydd Cynulleidfaol yn y Gadeirlan am 6.30pm, ar ôl Gosber (am 5.30pm) ar y dyddiau canlynol: 29 Medi, 8 Rhagfyr.

Cylchu Cymru

Mae'r Doethur Gareth Evans-Jones, Darlithydd mewn Diwinyddiaeth yn y Brifysgol a ffrind i'r Gadeirlan, yn lansio ei lyfr diweddaraf yn croniclo ei bererindod o amgylch arfordir Cymru, yn Pontio nos lau yma 15 Medi am 7pm. Mae croeso i bawb.

System glywedol

Mae'r gwaith i osod system glywedol newydd yn y Gadeirlan bron â'i orffen, a chawn fendithio'r offer newydd yr wythnos nesaf.

Datganiadau Paned

Pob dydd Iau

11.15am am 45 munud

Paned a chacen o 10.45am

15 Medi | Martin Brown | Organ

Mae Martin Brown, Organydd y Gadeirlan, yn dathlu dychweliad organ y Gadeirlan ar ôl gwaith atgyweirio hanfodol dros fisoedd yr haf.

Tocynnau Gwasanaeth Coffa Memorial Service tickets



Camau Bach

Ar ddydd Mawrth 20 Medi byddwn yn lansio grŵp plant bach wythnosol newydd yma yn y Gadeirlan, o'r enw **Camau Bach**. I'w gynnal o 9am hyd 10.30am bydd y grŵp yn rhoi lle i rieni a gofalwyr sydd â phlant cyn oed ysgol gyfle i eistedd, sgwrsio a mwynhau paned gydag eraill. Bydd yr Ymwelwyr Iechyd Lleol yn ymuno â ni bob wythnos i gynnig cefnogaeth a chyngor i'r rhieni. Os hoffech chi fod yn rhan o dîm gwirfoddoli **Camau Bach**, yn helpu i wneud paneidiau o de ac i sgwrsio â rhieni a gofalwyr, ytn wythnosol neu'n ar rota llai aml na hynny, siaradwch â Naomi Wood.

Yr wythnos

Dydd Llun | Monday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Mawrth | Tuesday

12.30pm Cymun | Eucharist

5.30pm Cymun Bendigaid ar Gân ar Noswyl Gŵyl y Grog | Choral Holy Eucharist on Holy Cross Eve

Dydd Mercher | Gŵyl y Grog Wednesday | Holy Cross Day

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Iau | Thursday

11.15am Dagoniad Paned | Coffee-break Recital

12.30pm Cymun | Eucharist

2pm Cymun Bendigaid yn Eglwys y Groes | Holy Eucharist at Eglwys y Groes

5.30pm Gosber ar Gân | Choral Evensong

Dydd Gwener | Friday

12.30pm Cymun | Eucharist

Dydd Sadwrn | Saturday

12.30pm Cymun | Eucharist

18 Medi | Y Pedwerydd Sul ar Ddeg wedi'r Drindod

18 September | The Fourteenth Sunday after Trinity

8.15am Holy Eucharist

9.15am Cymun Bendigaid ar Gân

Cymun ar Emyn-Donau Cymreig, Cooper; Gwyn fyd y galon bur, Walford Davies; Offrymddarn yn Dmwyaf, Wesley

11.00am Choral Holy Eucharist

Missa Brevis in C, Gounod; Ubi caritas, Duruflé; Postlude, Waters

4.30pm Gwasanaeth Coffa'r Sir a'r Esgobaeth: Gwasanaeth i goffâu Ei Diweddar Fawrhydi'r Frenhines Elisabeth II | The County & Diocesan Memorial Service: A Service to commemorate Her Late Majesty Queen Elizabeth II

Ein gweddi

Ein cymuned Y Brenin

Ein hesgobaeth Ardal Weinidogaeth Bro Deiniol

I'w Bedyddio'r Sul hwn —

Yn glâf Glenys Dore; Maureen Howes; Harri Stanton Jones; Barbara Collis; Florence Carys Edwards

A fu farw'n ddiweddar Alan Horrex; Daphne Roberts; Elfed Griffith; Vera Williams; Jeanette McCreadie; Sandra Williams; Mikhail Gorbachev; Queen Elizabeth II

Gŵyl goffa —

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwmo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff rhai o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook o gamera ym mhen dwyreiniol Corff yr Eglwys sy'n wynebu'r dwyrain, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaidd 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r lliθοedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Mae llun y clawr o'r Faner Genedlaethol wedi ei chodi i'r uchaf i nodi Cyhoeddi teyrnasiad Ei Fawrhydi y Brenin.

Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol

Deiniol Sant ym Mangor

The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru
Y Parchedigaf Andrew T. G. John
Bishop & Archbishop of Wales
The Most Revd Andrew T. G. John

Is-Ddeon | Sub-Dean
Canon Siôn B. E. Rhys Evans
sionrhys-evans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol
Canon for Congregational Life
Canon Tracy Jones
tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music
Joe Cooper
joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist
Martin Brown
martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu | Family Minister
Naomi Wood
naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Clerc y Cabidwl | Chapter Clerk
Robert Jones
robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos
Simon Taylor
simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer
Kelly Edwards
kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Liturgi | Liturgy Administrator
Sam Jones
samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu
Conservation & Development Project Manager
Simon Ogdon

simonogdon@eglwysyngnghymru.org.uk
Canon Secundus
Canon David Thomas Morris

davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk
Canon Emeritus | Canon Emeritus
Canon Angela Williams

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan
Members of the Cathedral's College of Priests
Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor-Jones,
y Tra Pharchg Athro | the Very Revd Prof.
Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter
Kaye

Darllenydd | Reader
Elma Taylor

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect
Simon Malam

Rhif elusen | Charity number 1158340

Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganwch y cod QR isod.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswilt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

